OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1220 (Cy.104)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Swyddogaethau mewn perthynas â Chymwysterau Allanol (Cymru) 2009

Gwnaed - - - - *9 Mai 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *12 Mai 2009*
Yn dod i rym - - *5 Mehefin 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 30(1) o Ddeddf Addysg 1997(**1**) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu) 2005(**2**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**3**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cymhwyso, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Swyddogaethau mewn perthynas â Chymwysterau Allanol (Cymru) 2009.

(2) Mae'n gymwys o ran Cymru.

(3) Daw i rym ar 5 Mehefin 2009.

(4) Yn y Gorchymyn hwn, mae cyfeiriadau at baragraffau yn gyfeiriadau at baragraffau o adran 30(1) o Ddeddf Addysg 1997.

Swyddogaethau sydd i'w harfer gan Weinidogion Cymru yn unig

2.—(1) Mae'r swyddogaethau a osodir ym mharagraffau (a) i (c), (d) ac (ea) i'r graddau y maent yn ymwneud â chymwysterau galwedigaethol cenedlaethol i'w harfer gan Weinidogion Cymru yn unig.

(2) Mae'r swyddogaethau a osodir ym mharagraffau (e) ac (f) i'r graddau y maent yn ymwneud â chymwysterau galwedigaethol cenedlaethol i'w harfer gan Weinidogion Cymru yn unig.

(**1**) 1997 p.44.
(**2**) O.S. 2005/3239.
(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).